Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - L/LG/0462/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@assembly.wales

4 Gorffennaf 2019

Annwyl Mick,

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30A.

Rwyf yn ysgrifennu hefyd i roi gwybod ichi nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i drafod yr OS hwn yn yr achos hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn ar sail y ffaith mai'r unig beth y mae'r OS hwn yn ei wneud yw gwneud diwygiadau gweithrediadwyedd a fydd yn codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r OS yn ymwneud â diwygiadau i weithredadwyedd Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ac nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

Mae RhS30A yn darparu y caiff unrhyw Aelod osod cynnig i gynnal dadl ar yr OS hwn. O ystyried cymaint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei ystyried, ni fyddaf i fy hun yn mynd ati i ysgogi dadl o'r fath.

Cofion,

Lesley Griffiths

Lesley Griffiths AC / AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales